Y Ganolfan Integredig
Boulevard de Saint-Brieuc
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1PD

Adnoddau Sylfaen 1

**Adnoddau**

| **Cyhoeddus** |
|---|
| **App Dewin a Doti – AppStore+Android** |
| **Podlediadau -** Podlediad - Mudiad Meithrin |
| **Cylchlythyr – https://www.meithrin.cymru/trosolwg-newyddion/** |
| **Cylchgrawn WCW – gorfod tanysgrifio - https://360.cymru/tanysgrifio/wcw/** |
| **Siop -** Siop - Mudiad Meithrin |
| **Sianel You Tube – Playlist Clwb Cylch - https://www.youtube.com/watch?v=Atp1DmjKrY0&list=PLrUunC9eiE2y_6dWIrBO4-lg61e6Ou_Dz** |
| **Cartwn Dewin a Doti - https://youtu.be/MzqyzA8qTvM** |
| **Dawnsio gyda Siani Sionc a Dewin - https://www.youtube.com/playlist?list=PLrUunC9eiE2zkX1SpiOqeUPuUfNSg2Erv** |
| **Gwyl Dewin a Dathlu 2021 - https://www.youtube.com/playlist?list=PLrUunC9eiE2yJrdZgYm8ObPyKLljvleZO** |
| **Cyfres o hwiangerddi ar YouTube - https://www.youtube.com/playlist?list=PLrUunC9eiE2zlENEB0tpbC6cdMuNi_hWW** |
| **Cymraeg I Blant - https://www.meithrin.cymru/cymraeg-i-blant/** |
| **Cymraeg I Blant YouTube - https://www.youtube.com/playlist?list=PLrUunC9eiE2zmFNqMlQmHqPaqOLM8iuk3** |
| **Cymraeg @ adre -** Cymraeg@adre - Mudiad Meithrin |
| **Hwiangerddi - https://www.meithrin.cymru/prosiect-hwiangerddi /** |
| **Dewin a Doti https://www.meithrin.cymru/clwb-dewin /** |
| **Croesi'r Bont ar HWB https://hwb.gov.wales/zones/foundation-phase-excellence-network/repository/discovery/resource/1ff976a6-7933-4252-a3be-d49af0442f55/en** |
| **Dwylo Diogel https://hwb.gov.wales/News/articles/f4d139f5-0b07-4039-836d-228696a02876** |
| **Cymraeg I Blant https://hwb.gov.wales/zones/foundation-phase-excellence-network/news/articles/29f8a6e1-767d-483c-a708-ebc0fd2b098f** |
| **Cyfres o ganeuon Cymraeg - https://www.youtube.com/watch?v=d-AUurrXDdQ&list=PLrUunC9eiE2zlENEB0tpbC6cdMuNi_hWW** |
| **Cardiau Flach (Croesi'r Bont) – dogfen pdf** |
| **Taflen Dulll Trochi linc – dogfen pdf** Taflen_Dull_Trochi_Mawrth_2022_C-1.p |
| **Dewin a Doti'n helpu yn y Gêm Fawr Llyfr** Dewin a Doti'n helpu yn y Gêm Faw Clip fideo yn darllen y stori clip fideo siani sionc y gem fawr.xsp |
| **Taflen Gweithgareddau** Taflen Weithgareddau Cyn Taflen Weithgareddau Gw |

| |
|---|
| **Caneuon ar gyfer Disgoch** https://www.bbc.co.uk/sounds/play/m001ff61 |
| **Cymru Ni -** Colin-J-Terfynol Cymru ni.pdf |

Elusen Gofrestredig/Registered Charity 1022320. Cwmni Cyfyngedig dan Warant/Company Limited by Guarantee 2164058. Cofrestrwyd yng Nghymru/Registered in Wales

Y Ganolfan Integredig



Yn yr Ardd
In the Garden
Dwi'n hoffi...
I like...
Wyt ti eisiau...?
Do you want to...?
Dere i / Tyrd i...
Come and...
Welsh
Now in a Minute
Mwydyn
Worm
Adar
Birds
Coeden
Tree
Dail
Leaves
Llithren Slide
Adeiladu
Build / Building
Wal
Wall
Dringo
Climbing
Ffau
Den
Hadau
Seeds
Bwced
Bucket
Dŵr
Water
Mwd
Mud
Beic
Bike
Cae Field
Blodau
Flowers
Cuddio
Hide / Hiding
Glaswellt / Gwair
Grass
Pot Blodau
Flower Pot

# Summer

# Yr Haf

Use the following vocabulary when discussing summertime/Yr Haf activities and summer weather with the children. You may use the words incidentally throughout play and use one or two of the words in Welsh/Cymraeg in the context of an English sentence if you do not feel confident using full Welsh sentences. The more of the words you use incidentally, the more children will hear the phonetic Welsh alphabet and use this to develop their linguistic skills through repetition. You may also use these words to create labels to place on wall displays or resources around your setting.

| Word bank and useful phrases | Geirfa ac ymadroddion defnyddiol |
|---|---|
| Hot | Poeth |
| Warm | Cynnes |
| Sun | Haul |
| Sunshine | Heulwen |
| Rainbow | Enfys |
| Showers | Cawodydd |
| Shade | Cysgod |
| Sunscreen lotion | Eli haul |
| Hat | Het |
| Sunglasses | Sbectol haul |
| Swimming costume | Gwisg nofio |
| Swim | Nofio |
| Sea | Môr |
| Sand | Tywod |
| Beach | Traeth |
| Ball | Pêl |
| Holidays | Gwyliau |
| Play/Playing | Chwarae |

Cymru
National Day Nurseries Association

**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk

| | |
|---|---|
| Seagull(s) | Gwylan(od) y môr |
| Ice cream | Hufen iâ |
| Sandcastle | Castell tywod |
| Shall we build a sandcastle? | Beth am adeiladu castell tywod? |
| Shells | Cregyn |
| Shall we collect shells? | Beth am gasglu cregyn? |
| Bucket and spade | Bwced a rhaw |
| Blue-sky | Awyr lâs |
| Flower | Blodyn |
| What colour is the flower? | Pa liw ydy'r blodyn? |
| Flowers | Blodau |
| How many flowers are there? | Sawl blodau sydd yna? |
| Bird | Aderyn |
| Birds | Adar |
| Butterfly | Pili-pala |
| Look a butterfly! | Edrych pili pala! |
| Bee | Gwenynen |
| Bees | Gwenyn |
| What do bees make? | Be mae gwenyn yn neud? |
| Honey | Mêl |
| Garden | Gardd |

## Further support

- Factsheet - Sand and Water https://bit.ly/3AnCm90
- Bookstart Cymru - Gwenynen Brysur – Busy Bee: https://bit.ly/3w79IXm

**Published May 2022**

Cymru
National Day Nurseries Association

**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk

# Sand and water
# Tywod a dŵr

The '**Protective measures in childcare settings**' guidance notes that where possible providers should prevent the sharing of equipment and toys. The guidance also states that play with sand and water should be restricted and only participated in if the relevant guidance around hygiene and cleaning in the '**Infection Prevention and Control for Childcare Settings guidance**' can be adhered to.

Therefore, if you feel that you can monitor the resources, then small trays for individual children can be used along with their own utensils / resources. Trays should then be emptied (contents disposed of) and cleaned after use as per the 'Infection Prevention' guidance, ready for the next child.

Provide children with the opportunity to play with wet / dry sand and cold / warm water, encouraging the children to use their sensory skills. Children will have the opportunity to be introduced to new Welsh words as they carry out the activity enhancing their vocabulary.

| Learning outcomes | Canlyniad dysgu |
|---|---|
| Motor skills | Sgiliau echddygol |
| Sensory play | Chwarae synhwyraidd |
| Enhancing vocabulary | Gwella geirfa |
| Counting | Cyfri |
| Hand eye co-ordination | Cydgysylltu llaw a llygaid |
| Taking turns | Cymeryd tro |

Cymru
National Day Nurseries Association

**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk

| Resources | Adnoddau |
|---|---|
| Sand (wet and dry) | Tywod ( Gwlyb / Sych) |
| Cold and warm water | Dŵr oer a cynnes |
| Cups, spades, buckets, general objects | Cwpan, rhaw, bwced, petha cyffredinol |
| Aprons | Ffedog |
| Baby bath liquid (optional) | Hylif bath babi (dewisol) |

**Activity outline – Amlinell gewithgaredd**

- Set up the sand area with a selection of cups, buckets and spades
- Set up the water area, fill with water and optional baby bath liquid to make bubbles / swigod (optional, possible risk assessment required for this)
- Add cups for pouring and bottles for filling
- Set up a small group for the activity or individual bowls per child*
    - **refer to latest Government Guidelines*
- Encourage the children to put on an apron
- Refer to the word bank and useful phrases list
- Encourage the children to play freely and discuss what they can feel and see
- Make shapes in the sand, build sandcastles and talk about the seaside
- Ask open questions to encourage a discussion to take place on the subject of the seaside and holidays.



**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk

| Word bank and useful phrases | Geirfa ac ymadroddion defnyddiol |
|---|---|
| Sand | Tywod |
| Water | Dŵr |
| Sand castle | Castell Tywod |
| Cold | Oer |
| Warm | Cynnes |
| Sunny | Heulog |
| Dry | Sych |
| Wet | Gwlyb |
| Soft | Meddal |
| Full / Empty | Llawn/Gwag |
| Pour | Tywallt |
| Seaside | Lan Y Môr |
| Holidays | Gŵyliau |
| Holiday | Gŵyl |
| How does the water feel? | Sut mae'r dŵr yn teimlo? |
| Is it cold / warm? | Ydio yn oer/cynnes? |
| How does the sand feel? | Sut mae'r tywod yn teimlo? |
| Does the sand feel… dry? | Ydy'r tywod yn teimlo'n sych? |
| How many cups fill the bottle? | Sawl cwpan sy'n llenwi potal? |
| Can you pour the water? | Fedri di dywallt y dŵr?* |
| It's full | Mae'n llawn |
| It's empty | Mae'n wag* |
| Are you going on holiday? | Wyt ti'n mynd ar gwyliau? |
| What was your best holiday and why? | Pa wyliau oedd y gorau a pam? |
| Can you put your apron on? | Fedri di rhoi fedog ymlaen? (singular speaking with one child)<br>Fedrwch chi rhoi fedog ymlaen? (plural more than one child) |



**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk

- Notice the soft mutation * all adjectives mutate softly after yn / y or before d(t)ywallt
- Soft mutation here Gwag becomes wag* as we are describing by saying “mae o yn (g)wag”.

## Further support

- Find activities and tips join myNDNA

## Disclaimer

This factsheet is a collation of ideas and suggestions on how to modify your provision while implementing social distancing and infection control and providing a range of learning opportunities for the children within your setting. Each setting will still need to complete a personalised risk assessment for their individual setting and circumstances. The information within this factsheet is relevant as of 10 August 2020. Should changes in legislation or policy guidance emerge after this date, this factsheet may not fully reflect these. It is advised that you continue to review the latest COVID-19 Welsh Government guidance.

**Published May 2022**



**National Day Nurseries Association**
National Early Years Enterprise Centre, Longbow Close, Huddersfield HD2 1GQ
tel: 01484 407070 fax: 01484 407060 info@ndna.org.uk www.ndna.org.uk

# 10 syniad da ar gyfer datblygu eich defnydd o’r awyr agored ar gyllid isel o fewn y Cyfnod Sylfaen

O fewn y Cyfnod Sylfaen, yr awyr agored yw'r amgylchedd delfrydol ar gyfer dysgu trwy brofiad, oherwydd mae'n cynnig cyfleoedd unigryw i fod yn greadigol, i symud o gwmpas, i fod yn swnllyd ac i fentro. Mae'r awyr agored yn llawn ysgogiadau arbennig fel y tywydd, synau, arogleuon a gweadau a all gyfoethogi a gwella amgylchedd dysgu plentyn. Mae bod yn yr awyr agored yn gwella pob agwedd ar ddatblygiad plant: yn gymdeithasol, corfforol, creadigol, diwylliannol a phersonol. Mae plant sydd â'r sgiliau datblygedig hyn yn gallu dysgu'n well a pharhau i wneud hynny. Mae rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored fel adnodd ar gyfer dysgu o fudd i blant mewn cymaint o ffyrdd.

Nid dim ond trosglwyddo gweithgareddau dan do a'u cynnal y tu allan yw dysgu awyr agored. Mae’n fwy na dim ond gadael i’r plant fynd allan i chwarae. Mae deall y gwahaniaeth hyn yn allweddol i arfer da. Nid yw'r awyr agored yn ychwanegol at y Cyfnod Sylfaen, dylai'r Cyfnod Sylfaen a'r awyr agored fod yn anwahanadwy.

Mae meddwl am yr hyn rydych chi am i'r plant allu ei wneud yn hytrach na meddwl beth rydych chi am i’r plant ei gael yn fan cychwyn da wrth ystyried adnoddau. Gall cynllunio, creu a darparu amgylchedd awyr agored cyfoethog gyda phrofiadau dysgu addas, deniadol i'r plant yn eich lleoliad gynnwys yr holl ymarferwyr ac nid oes rhaid iddo fod yn ymdrech gostus. Gall rhieni / gofalwyr, neiniau a theidiau a'r gymuned ehangach fod yn ased gwerthfawr o ran datblygu a chynnal amgylcheddau a phrofiadau awyr agored.

Mae yna lawer o offer archwilio ar gael ar-lein i chi adolygu'ch darpariaeth awyr agored gyfredol a chreu cynllun datblygu o'r hyn yr hoffech chi ei wella ac erbyn pryd. Sicrhewch eich bod yn cynnwys targedau bach yn ogystal â thargedau mwy tymor hir gan y bydd y gwelliannau bach hyn yn rhoi'r cymhelliant a'r hyder i chi gymryd camau pellach pan fyddwch chi'n barod. Mae'r camau cyntaf hyn yn fannau cychwyn pwysig. Gall sut rydych chi'n defnyddio'r hyn sydd gennych chi eisoes fod yn fwy effeithiol na gwneud newidiadau corfforol a bydd pob amser agweddau o’ch darpariaeth y gellir cael ei ddatblygu ar unwaith.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys 10 awgrym da a syniadau ar sut i fynd ati i ddatblygu eich darpariaeth awyr agored o fewn ychydig o gamau hawdd, gan gynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses i sicrhau perchnogaeth i'r plant, staff a theuluoedd sy’n gysylltiedig a'ch lleoliad.

Cymru
National Day Nurseries Association

**NDNA Cymru**
Swyddfa 3, Tŷ´r Goron, 11 Stryd Y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1AE
ffôn: 01824 70 78 23 e.bost: wales@ndna.org.uk

## 1. Olwynion car a thractor

Mae olwynion car a thractor yn ychwanegiad rhagorol i unrhyw ofod awyr agored, p'un a yw'n cael ei ddefnyddio fel gofod ar gyfer plannu a thyfu, neu fel rhan o'ch chwarae rhydd yn yr awyr agored. Mae hen olwynion yn wych ar gyfer hyn! Ewch at garejys a chanolfannau teiars lleol i ofyn am unrhyw olwynion diangen sydd ar gael. Os yw'ch lleoliad o fewn neu'n agos at gymuned ffermio, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cysylltu â'r ffermwyr lleol hefyd. Ystyriwch fynd â rhai plant i ofyn gyda chi neu i'w casglu, ond cofiwch gynllunio ar gyfer hyn.

## 2. Hen sosbenni a photiau

Mae'r gegin fwd wedi bod yn bresenoldeb cyson yn yr amgylchedd awyr agored ers ychydig flynyddoedd bellach. Sicrhewch fod eich plant yn dal i gael y gorau o'r amgylchedd dysgu trwy adolygu a diweddaru'r adnoddau sydd ar gael. Nid oes angen i'r rhain gostio unrhyw beth; siaradwch â staff a rhieni a gofyn pan fyddant yn adnewyddu neu'n newid eu teclynnau cegin, potiau a sosbenni, eu bod yn ystyried rhoi'r hen rai i'r lleoliad. Y peth gwych am hyn yw oherwydd bod yr offer yn yr awyr agored, does dim ots os nad ydyn nhw'n gallu cael eu defnyddio i goginio a gallwch chi wirioneddol wella'ch amrywiaeth o adnoddau, gyda phethau fel wok, rhidyll ayyb.

## 3. Deunyddiau ailgylchu

Manteisiwch i'r eithaf ar eich ailgylchu! Gall y pethau rydyn ni'n eu taflu i finiau ailgylchu brofi bywyd hollol newydd wrth eu hail-ddefnyddio, gan sbarduno dychymyg y plant yn ogystal â chefnogi eu dealltwriaeth o ailgylchu a'i fuddion i'r amgylchedd. Cadwch botiau iogwrt ar gyfer eu defnyddio wrth chwarae â dŵr neu yn y gegin fwd, cadwch hen duniau bwyd ar gyfer plannu a thyfu neu greu cerddoriaeth, cadwch gaeadau poteli ar gyfer gweithgareddau celf neu rifedd, cadwch flychau a thiwbiau ar gyfer chwarae rhannau rhydd ac ati.

## 4. Coed

Gall coed ddarparu cyfoeth o gyfleoedd dysgu i blant; disgrifio coed, ymchwilio i fwyd sy'n tyfu ar goed, eistedd o dan goed, straeon o'r mabinogi / straeon lleol sy'n cynnwys coed, dysgu am darddiad coed Nadolig, cyfrif a sylwi ar goed ac ati. Mae'n wych os oes gennych chi goed ar y safle! Fodd bynnag, peidiwch â phoeni os na - cynlluniwch ymweliad â'ch parc lleol dir gwyrdd neu trefnwch ymweliadau ag ysgolion / eglwysi lleol neu safleoedd cymunedol gyda choed y gallwch gael mynediad atynt. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru dudalen gyfan wedi'i neilltuo ar gyfer coed a choetiroedd lle gallwch ddod o hyd i adnoddau a chynlluniau gweithgaredd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen e.e. sut i fesur uchder coeden: <https://bit.ly/2Qj9Zo7>

Mae dolenni cwricwlwm wedi'u cynnwys yn y dogfennau a bydd yr holl weithgareddau'n eich helpu i gyflawni sawl agwedd ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

## 5. Adnoddau Naturiol

Mae adnoddau naturiol yn ysgogi creadigrwydd a dychymyg plant oherwydd gellir eu defnyddio wrth chwarae mewn sawl ffordd. Nid dim ond cefnogi plant i ddysgu am natur a'u hamgylchedd lleol. Gall

adnoddau naturiol fod â gweadau, meintiau, lliwiau ac arogleuon gwahanol. Maent yn adnewyddadwy ac nid yw eu creu a'u gwaredu yn creu fawr o niwed i'r amgylchedd. Mae adnoddau naturiol hefyd yn hawdd eu cyrraedd ac am ddim! Gellir eu casglu o erddi, parciau, tiroedd y lleoliad ac ati. Ystyriwch ymgorffori deunyddiau naturiol fel brigau, cerrig, cregyn, conau ffynidwydd ac ati yn eich lleoliad. Maent yn arbennig o addas ar gyfer ardaloedd ymchwilio, ardaloedd creadigol, ardaloedd mathemateg a gellir eu partneru ag adnoddau ychwanegol fel potiau planhigion gyda rhifau arnynt, clorian pwyso, fframiau gwag ac ati i helpu i ddatblygu sgiliau mathemateg a chreadigrwydd plant ynghyd â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd.

## 6. Cynlluniau gwersi a syniadau am ddysgu yn yr awyr agored - am ddim

Mae gan 'Learning through Landscapes' dudalen ar eu gwefan yn arbennig ar gyfer rhannu syniadau am ddysgu yn yr awyr agored a chynlluniau gwersi awyr agored. Mae'r syniadau am ddysgu yn yr awyr agored wedi cael eu datblygu a'u profi gan addysgwyr blynyddoedd cynnar ac maent yn gallu cael eu rhannu yn ôl addasrwydd i'r oedran ac ardal cwricwlwm, gyda bron i 100 o syniadau dysgu i blant o 2 i 5 oed: www.ltl.org.uk/free-resources/

## 7. Cwmnïau Deunyddiau Adeiladu

Mae hen gewyll, paledi, rhaff a tharpolin yn gwneud ychwanegiadau rhagorol i ardaloedd awyr agored ar gyfer pob math o weithgareddau, adeilad cuddfan neu gysgodfeydd, chwarae'n rhydd, ardaloedd adeiladu, creu ceginau fwd, adeiladu llwyfannau ac ati. A oes gennych unrhyw gysylltiadau teuluol trwy'r plant ag adeiladwyr lleol, gweithwyr adeiladu neu iardiau lle gallwch ofyn am rai o'r adnoddau uchod? Unwaith eto, byddai ymweld â'r safle gyda'r plant yn brofiad rhagorol hefyd.

## 8. Denu Bywyd Gwyllt

Ystyriwch greu ardaloedd i ddenu bywyd gwyllt fel creu eich gwesty trychfilod eich hun gan ddefnyddio deunyddiau a dderbyniwyd / neu sy'n cael eu hail ddefnyddio e.e. potiau planhigion wedi torri, boncyffion, canghennau, planciau o bren a briciau ac ati. Mae gwesty trychfilod yn adnodd gwych i blant ddylunio ac adeiladu eu hunain ond hefyd ail-ymweld dro ar ôl tro i weld pa greaduriaid sydd wedi sefydlu eu cartref yno, gan ddefnyddio chwyddwydrau a gwneud cofnodion neu dynnu lluniau. Gallwch blannu hadau blodau gwyllt i ddenu gwenyn a gloÿnnod byw. Gallwch greu byrddau adar i ddenu adar mwy amrywiol i'ch ardal awyr agored. Gofynnwch i'r plant gofnodi'r hyn maen nhw'n ei weld a dechrau trafodaethau am yr hyn yr hoffai'r gwenyn / adar / gloÿnnod orau.

## 9. Canolfannau garddio ac archfarchnadoedd lleol

Ystyriwch fynd at eich canolfan arddio neu archfarchnad leol i holi am unrhyw gynlluniau cymunedol y maen nhw'n eu rhedeg. Bydd llawer yn cefnogi grwpiau lleol trwy roi eitemau ac adnoddau fel hadau, pridd, tryweli ac ati heb ofyn am unrhyw beth yn ôl. Fodd bynnag, efallai yr hoffech gynnig rhywfaint o hysbysebu am ddim wrth eu crybwyll ar gyfryngau cymdeithasol, yn eich chylythyrau, trwy gysylltu â'r papur newydd lleol neu osod arwydd bach yn eich ardal awyr agored yn nodi pwy sydd wedi noddi'r ardal.

NDNA Cymru
Swyddfa 3, Tŷ´r Goron, 11 Stryd Y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1AE
ffôn: 01824 70 78 23 e.bost: wales@ndna.org.uk

## 10. Gwneud yn fawr o'ch cymuned

Manteisiwch i'r eithaf ar eich cymuned! Cyflwynwch eich plant i'r awyr agored anhygoel y tu allan i'ch lleoliad. Cynlluniwch deithiau cerdded ac ymweliadau â pharciau, pontydd, gerddi, safleoedd hanesyddol, rhandiroedd, canolfannau garddio, mannau gwyrdd, gwarchodfeydd natur, traethau, afonydd, pyllau ac ati. Dilynwch ddiddordebau'r plant a chysylltwch â grwpiau a lleoliadau awyr agored lleol i fod yn bartneriaid ar gyfer gweithgareddau. Os oes gan eich ysgol leol ardal awyr agored wedi ei datblygu neu safle addas ar gyfer ysgol goedwig, cysylltwch â nhw a gofyn a fyddech chi'n gallu cael mynediad iddi. Os ydych chi'n bwydo i mewn i ddosbarth derbyn yr ysgol, ystyriwch wneud y trefniant yn brosiect trosglwyddo. Gallant fod yn grŵp garddio lleol y gallech fod yn bartner ag ef i gynorthwyo mewn rhandir lleol. Gofynnwch i'ch staff, rhieni a'ch gofalwyr os oes ganddynt arbenigwyr awyr agored yn eu plith a'u gwahodd i siarad â / neu gwblhau gweithgaredd gyda'r plant.

**Sylwch fod RHAID cynnal asesiad risg digonol ar unrhyw addasiadau i'ch darpariaeth awyr agored ac ymweliadau â safleoedd allanol. Rhaid rhannu asesiadau risg gyda staff, a'u hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, yn enwedig pan fydd newid mewn amgylchiadau. Wrth gwblhau asesiadau risg, gwnewch yn siŵr eich bod yn adolygu'r planhigion, y deunyddiau naturiol a'r cynefinoedd y bydd plant yn dod ar eu traws i gadarnhau nad ydyn nhw'n niweidiol nac yn wenwynig.**

## Cefnogaeth ychwanegol ac adnoddau NDNA

- **Cyhoeddiad NDNA –** Chwarae Awyr Agored: https://bit.ly/3mKeVOT
- **Cyhoeddiad NDNA - Chwarae Natur -** Nature Play – Dulliau i ysbrydoli yn yr awyr agored https://bit.ly/3trRvAx
- **Fy ngweithgareddau NDNA yn yr awyr agored**: https://bit.ly/3dXSrpJ
- **Syniadau da gan NDNA ar ddillad addas ar gyfer y Gaeaf**: <https://bit.ly/3wU6S6T>

**Cyhoeddwyd Ebrill 2021**

Cymru
National Day Nurseries Association

**NDNA Cymru**
Swyddfa 3, Tŷ´r Goron, 11 Stryd Y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1AE
ffôn: 01824 70 78 23 e.bost: wales@ndna.org.uk

# Cwestiwn ac Ateb gyda Big Ben:

## Rhannu profiadau o safbwynt ymarferydd blynyddoedd cynnar ar ddatblygu lle chwarae tu allan



**Ben Williams yw perchenog Clwb Antur Big Ben ac mae wedi rheoli Meithrinfa Dydd Tiny Tots a'r Clwb Tu Allan i'r Ysgol ers 2018 (y ddau ym Mhrestatyn, Gogledd Cymru). Mae gan Ben yrfa gyfoethog a chefndir yn canolbwyntio ar yr awyr agored, gan gychwyn gyda chwech mlynedd yn y lluoedd arfog , ac yna 10 mlynedd fel hyfforddwr personol a hyfforddwr ffitrwydd plant a phobl ifanc , cyn canfod diddordeb mewn addysgu plant o fuddion yr awyr agored. Yn ychwanegol i fagu ei dri plentyn ei hun , mae Ben yn dweud bod gwylio plant yn datblygu yn yr awyr agored yn deimlad di-guro ac mae'n bwriadu parhau i ddatblygu ei ymarfer ei hun a lledaenu'r neges bod plant a'r awyr agored yn gyfuniad hudolus.**

### Pam ydych chi mor frwdfrydig dros addysgu plant yn yr awyr agored ?

Yn bersonol, pan rydw'i yn yr awyr agored rwy'n teimlo dan lai o straen, yn fwy rhydd ac yn hapusach, ac fel y medra'i gyflawni unrhyw beth. Rwyf wrth fy modd yn yr awyr agored a phe bawn i'n gallu byw yn uchel yn y coed, mi fuaswn i yn neidio ar y cyfle! Yr ymdeimlad hwnnw o ryddid a theimlad o fod yn agos i fyd natur a chael y cyfle i lenwi fy ysgyfaint gydag awyr iach. Pan oeddwn i'n blentyn, byddwn i'n dod adref o'r ysgol, yn taflu fy mag yn y tŷ ac ni fyddai fy rhieni yn fy ngweld am oriau - neu yn yr haf byddwn yn syth i lawr i'r afon leol i nofio.

Gyda mwyafrif helaeth o blant yn treulio mwy o amser y tu mewn gyda thechnoleg, rwyf am helpu i'w hatgoffa bod yr hwyl a'r anturiaethau go iawn y tu allan! Hoffwn feddwl pe bai plant yn derbyn mwy o gyfleoedd i fwynhau'r awyr agored, byddai mwy yn dewis anghofio'r gemau a'r llechen.

Rwy'n ceisio creu cymaint o gyfleoedd â phosib i blant brofi'r awyr agored naturiol; dysgu adeiladu tanau, gwneud cuddfannau, coginio bwyd, dringo coed, tyfu llysiau, defnyddio bwa a saeth, rholio mewn mwd a llawer mwy. Hoffwn i feddwl mai breuddwyd plentyn ydyw.

### Wnaethoch chi dreulio llawer o amser y tu mewn fel plentyn ? Beth yw eich hoff atgofion o fod y tu allan ?

Heb amheuaeth, fy hoff atgof o'r awyr agored pan oeddwn yn blentyn oedd yr afon leol 500 llath o fy nhŷ. Roedd yn rhan o'n bywydau trwy gydol y flwyddyn. Yn ystod misoedd yr haf byddech chi'n rhedeg i mewn o'r ysgol, cydio yn eich siorts a'ch tywel ac o fewn 10 munud byddem yn bomio i'r dŵr. Roedd yn lle hynod boblogaidd a byddai pobl yn dod o filltiroedd o gwmpas ac nid oedd yn



**NDNA Cymru**
Swyddfa 3, Tŷ'r Goron, 11 Stryd Y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1AE
ffôn: 01824 70 78 23 e.bost: wales@ndna.org.uk

anghyffredin i 50 o bobl fod o gwmpas yr un fan yn rheolaidd. Yr atgofion sydd gen i o fisoedd yr haf yn tyfu i fyny ... bydd yr hwyl a'r chwerthin yn byw gyda mi am byth. O'r gwanwyn hyd at yr hydref byddem yn gwersylla allan yn rheolaidd ar hyd yr afon gan adeiladu tanau, coginio cig moch, chwarae gitâr a chanu. Roedd yn anhygoel. Pan ddaeth hi'n aeaf byddem yn ceisio adeiladu'r cuddfannau a'r llochesi gorau y gallem nes i'r glaw trwm ddod a'u golchi i ffwrdd! Hyd yn oed nawr, 25 mlynedd yn ddiweddarach, rwyf wrth fy modd yn cerdded y cŵn reit ar hyd yr afon ac atgoffa fy hun o’r gorffennol. Mae'n fy llenwi â'r llawenydd mwyaf aruthrol. Roedd y profiadau hynny i mi fel plentyn yn anfesuradwy, ac ni allai'r holl arian yn y byd brynu unrhyw beth gwell.

## Lle wnaethoch chi ddysgu am chwarae awyr agored a chwarae mentrus i blant ?

Mae fy ngwybodaeth o'r awyr agored bob amser wedi bod yn eithaf da, yn bennaf o'r profiadau a gefais fel plentyn. Fe greodd y profiadau cadarnhaol hynny gysylltiad i mi â'r awyr agored ac rydw i wedi bod yn dysgu ac yn darganfod byth ers hynny. Llwyddais hefyd i ddatblygu fy sgiliau awyr agored ymhellach yn ystod fy chwe blynedd yn y lluoedd arfog.

Wrth ystyried dod â fy angerdd i mewn i ddysgu a datblygu plant yn yr awyr agored, gwnes gymaint o ymchwil â phosibl i'r buddion y mae cyfleoedd chwarae awyr agored a chwarae mentrus yn eu cael ar blant. Darllenais erthyglau, blogiau a gwnes ymchwil ar-lein. Fe wnes i chwilio am leoliadau awyr agored oedd â’r arfer gorau o bob rhan o'r DU a'u dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn wedi rhoi cyfle i mi weld arfer da yn y maes chwarae a chael syniadau y gallaf eu gweithredu neu hyd yn oed wella arnynt yn fy lleoliad. Fe wnes i hefyd chwilio am gyfleoedd datblygiad proffesiynol ac rydw i wedi mynychu amryw o sesiynau a seminarau hyfforddiant chwarae awyr agored a chwarae mentrus. Rwy'n credu fy mod i wedi cwblhau'r holl hyfforddiant chwarae awyr agored a mentrus sydd gan NDNA i'w gynnig! Rhoddodd y sesiynau hyn nid yn unig gyfle i mi ddatblygu fy ngwybodaeth, ond hefyd i rwydweithio ag ymarferwyr eraill - rwy'n credu bod rhannu syniadau â lleoliadau eraill a helpu ein gilydd yn amhrisiadwy.

## Beth ydych chi’n feddwl ydi’r budd pennaf i blant sy’n cael profiadau awyr agored rheolaidd ?

Mae'r buddion yn enfawr a gallwn roi rhestr hir i chi ond pe bawn i'n gorfod dewis - yna i mi mae'n rhaid iddo fod yr effaith gadarnhaol anhygoel y mae'n ei chael ar les meddyliol plant a’u hapusrwydd cyffredinol. Mae gwylio plentyn yn chwarae yn y mwd, yn gorfod defnyddio sgiliau datrys problemau wrth ddringo coeden, neu fod yn greadigol gyda changen coeden a’i defnyddio fel ffon hud a lledrith, i weld y wên, y llawenydd a'r chwerthin ar eu hwyneb, dyna’r teimlad gorau yn y byd! Mae unrhyw un sy'n gweithio ym maes gofal plant yn gwybod ein bod ni'n gwneud popeth dros y plant, ac os yw'r awyr agored o fudd iddyn nhw mewn ffordd mor gadarnhaol, pam na fyddem ni'n neidio ar y cyfle i roi'r cyfleoedd a'r profiadau hynny iddyn nhw.

## Beth yw’r ffordd fwyaf llwyddiannus rydych wedi ei ganfod i dawelu meddwl rhieni sy’n pryderu am chwarae mentrus ?


**NDNA Cymru**
Swyddfa 3, Tŷ´r Goron, 11 Stryd Y Ffynnon, Rhuthun, Sir Ddinbych LL15 1AE
